GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 4

Cyflwyniad i Athrawon

Mae hawl gan blant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel. Mae hawl hefyd gan y rhai sy'n teithio gyda hwy neu wrth eu hymyl i deithio'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda wrth deithio'n ôl a blaen i'r ysgol neu'r coleg, er bod ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gallu bod yn broblem. Mae hyn yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch a gall y canlyniadau fod yn drasig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benderfynol o gefnogi awdurdodau lleol, gweithredwyr, gyrwyr ac ysgolion sy'n gorfod delio ag ymddygiad gwael ac aflonyddgar. Dyna pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r ***Cod Teithio.*** Bwriad y Cod Teithio yw gwella diogelwch ar gludiant ysgol trwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cod Teithio'n hyrwyddo teithio diogel i bob dysgwr, trwy osod y safonau ymddygiad sydd eu hangen. Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cod Teithio a chynhaliwyd gweithdai ledled Cymru i gasglu eu syniadau, eu mewnbwn a'u hadborth.

Mae cosbau yn rhan o'r Cod Teithio. Os na ddilynir y Cod Teithio, gall awdurdodau lleol, ysgolion neu sefydliadau addysg eraill gymryd camau yn erbyn plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys colli'r hawl i gael cludiant i'r ysgol am gyfnod a'u gwahardd o'r ysgol yn y pen draw.

Fel ymarferydd gallwch chwarae rôl bwysig, gan dynnu sylw plant a phobl ifanc at eu hawliau, ymddygiad derbyniol a chanlyniadau ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, wrth addysgu am hawliau, mae angen adlewyrchu bod hawliau'n gyffredinol a diymwad ac nad ydynt yn gysylltiedig ag, nac yn dibynnu ar ymddwyn mewn ffordd arbennig. Mae hefyd yn bwysig nodi pan ydych yn derbyn hawl i'ch hun eich bod hefyd yn ei dderbyn i eraill ac na ddylech ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfyngu ar fwynhad eraill o'u hawliau.

Mae gwybodaeth ar **http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/?lang=cy**
a hefyd ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/**

Bwriad y cynllun gwers hwn yw eich helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r Cod Teithio. Diolch am eich cefnogaeth gyda'r gwaith pwysig hwn.

Am fwy o wybodaeth neu i gyfeirio cydweithwyr at y Cod, ewch i **http://www.codteithio.org.**

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 4

Cefndir

Mae'r cynllun gwers hwn yn cyflwyno'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan. Mae nifer o gysyniadau allweddol yn sail i'r Cod Teithio: cysyniadau megis hawliau, ymddygiad a chodau ymddygiad.

Gallai'r gwersi hefyd gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthyglau 2, 3, 6, 13, 28, 29 a 42. Gellir cael adnoddau i helpu i addysgu'r CCUHP ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/**

Nod

- Codi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan
- Creu dealltwriaeth o oblygiadau'r Cod Teithio i bobl ifanc.
- Gallai'r wers hon fod yn rhan o gynllun dysgu ABCh a byddai'n ddefnyddiol i gadarnhau cysyniadau a dealltwriaeth. Gallai'r wers hefyd gael ei defnyddio fel gwers ar ei phen ei hun i gyflwyno'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan a chysyniadau hawliau a chyfrifoldebau.

Deilliannau dysgu

- Dylai pob dysgwyr allu disgrifio'r Cod Teithio
- Dylai pob dysgwyr allu disgrifio canlyniadau peidio â chydymffurfio â'r Cod Teithio
- Dylai pob dysgwr fod yn ymwybodol o'i hawliau a'i gyfrifoldebau wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Adnoddau Technegol

- Cyfrifiadur a thaflunydd digidol
- Mynediad i'r Rhyngrwyd. Ar gyfer defnydd athrawon yn unig.
- Uchelseinyddion ar gyfer chwarae'r fideo'n ôl

Uchelseinyddion ar gyfer chwarae'r fideo'n ôl

- Gellir cael adnoddau CCUHP, i ddysgu am hawliau, ar safle Gwneud Pethau'n Iawn ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/**
- Ffeil PowerPoint, *Pam fod Angen Cod Teithio?*
- Dalen Ddysgu.
- Papur gwag ar gyfer Gweithgaredd 4 isod
- Fideo Fyddet Ti Eisiau Eistedd Wrth Dy Ymyl Di? –ar gael ar **www.codteithio.org/travelcode.html**
  Noder Profwch y cysylltiad â'r fideo cyn y wers. Os oes angen, gofynnwch am gyngor gan dechnegydd TGCh yr ysgol
- Digon o gopïau o'r Cod Teithio i bob dysgwr.
- Mae'r holl adnoddau uchod ar gael o **www.codteithio.org**

Dull [gwers 60 munud]

1. Amcanion [5 munud]
Cyflwyno a rhannu amcanion y wers gyda'r dosbarth. Gellir defnyddio'r sleidiau PowerPoint sy'n gysylltiedig â'r cynllun gwers ar gyfer hyn.

2. Hawliau, Pa Hawliau? Hawliau Pwy? [15 munud]
Nod yr adran hon yw ennyn diddordeb dysgwyr, trwy drafodaeth dan arweiniad, ar gysyniadau hawliau a chyfrifoldebau.

Ewch i Sleid 3 y ffeil PowerPoint gysylltiedig. Mae'n 'adeiladu', frawddeg wrth frawddeg, nes datgelu rhestr o 'hawliau' posibl. Cyflwynwch y rhain i'r dosbarth cyfan.

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 4

Gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn grwpiau bach i ddewis pa rai sy'n hawliau a pha rai nad ydynt yn hawliau yn y rhestr. Rhowch ychydig o funudau'n unig iddynt wneud y gweithgaredd hwn – digon i gwblhau'r dasg a chadw eu diddordeb.

Ewch ati i adolygu gyda'r dosbarth pa 'hawliau' sydd wedi dod i'r amlwg o'r rhestr yn Sleid 3 fel rhai pwysig a pha rai sy'n llai pwysig. Dewiswch y tri neu bedwar sydd ar frig y rhestr ac ysgrifennwch y rhain ar fwrdd gwyn y dosbarth. Dyma ddechrau cwestiynau defnyddiol y gellid eu defnyddio i annog trafodaeth:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng...?
- Sut gwyddoch chi...?
- Beth sy'n gwneud i chi feddwl...?
- Ydi o'n bwysig neu braf cael...?

Arweiniwch y drafodaeth i ystyried pwy sy'n gofalu am yr hawliau hyn. Dyma ddechrau cwestiynau y gellid eu defnyddio i annog trafodaeth:

- Beth ddylai ddigwydd os bydd hawliau'n cael eu torri...?
- Pa resymau sydd yna dros gael hawliau...?
- Pwy sy'n gofalu am hawliau...?
- Pa hawliau allwch chi helpu i ofalu amdanynt...?
- Ydych chi'n gyfrifol am yr hawl i...?

Ewch i Sleid 4 y PowerPoint, sy'n gofyn cwestiwn am gyfrifoldebau mewn perthynas â hawliau. Ewch yn ôl at y rhestr o dri neu bedwar hawl a ysgrifennwyd ar y bwrdd gwyn a thrafodwch pa gyfrifoldebau allai ddeillio o'r hawl e.e. yr hawl i fod yn ddiogel/y cyfrifoldeb i beidio â bygwth diogelwch eraill.

3. "Fyddet Ti Eisiau Eistedd Wrth Dy Ymyl Di?" [15 munud]
Eglurwch eich bod am ddangos fideo (*Fyddet Ti Eisiau Eistedd Wrth Dy Ymyl Di?* Mae cyswllt i hwn ar Sleid 5.)

Eglurwch fod y fideo wedi ei gynhyrchu er mwyn gwneud y daith yn ôl a blaen i'r ysgol neu'r coleg yn fwy diogel i bobl ifanc. Pwysleisiwch fod y fideo yn rhan o ymgyrch i ddiogelu hawliau pobl ifanc (ac eraill) a helpu pobl ifanc i ddysgu am eu cyfrifoldebau.

Eglurwch y byddwch yn gwylio'r fideo fwy nag unwaith.

Dangoswch y fideo. Munud yn unig yw hyd y fideo.

Mewn parau, gofynnwch i ddysgwyr drafod yr hyn mae nhw wedi ei weld.

- Beth oedd yn digwydd yn y fideo?
- Sawl prif gymeriad oedd yna?
- Pam mai teitl y fideo yw, "Fyddet Ti Eisiau Eistedd Wrth Dy Ymyl Di?"

Dangoswch y fideo eto.

Naill ai:

Gofynnwch i rai dysgwyr chwarae rôl y cymeriadau sydd yn y fideo. Rhowch sedd yn nhu blaen y dosbarth ar gyfer rôl y 'Gadair Goch'. Mae rhai cyfarwyddiadau ar Sleidiau 6 a 7. Gofynnwch i weddill y dosbarth ofyn cwestiynau yn eu tro.

Neu:

Defnyddiwch y Ddalen Ddysgu a gofynnwch i ddysgwyr archwilio ac ystyried profiadau, meddyliau a theimladau'r rhai a ddangoswyd yn y fideo trwy gwblhau'r swigod meddyliau.

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 4

Trafodwch yr effaith y mae'r gweithredoedd negyddol wedi eu cael ar y cymeriadau. Y bwriad yma yw annog dysgwyr i uniaethu â'r cymeriadau yn y fideo y peryglwyd eu hawliau.

Symudwch y drafodaeth yn ei blaen i ystyried sut mae hawliau a chyfrifoldebau'n effeithio ar ddysgwyr wrth iddynt deithio'n ôl a blaen i'r ysgol a'r coleg. Bydd angen bod yn ofalus wrth wneud hyn gan eu hatgoffa o'r rheolau sylfaenol ynglŷn â datgeliadau personol. Bydd angen bod yn sensitif i brofiadau yn y gorffennol, ond dyma rai cwestiynau i'w hannog:

- Pa beryglon sydd yna wrth i chi deithio i'r ysgol neu'r coleg?
- Fydd yr hyn y byddwch yn ei ddweud neu'n ei wneud weithiau'n peryglu hawliau eraill?
- Os oes gennych hawliau, pa gyfrifoldebau sydd gennych hefyd?
- Yn eich barn chi, beth ddylai ddigwydd i'r rhai sy'n tresbasu ar hawliau eraill?

4. Datblygu Cod Teithio [10 munud]
Gofynnwch i'r dosbarth ddychmygu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu comisiynu i baratoi Cod Teithio. Rhaid iddynt egluro wrth bobl ifanc beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau wrth iddynt deithio'n ôl a blaen i'r ysgol a'r coleg.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau bach a dilyn y canllawiau ar Sleid 8.

Casglwch yr ymatebion a'u rhoi ar fwrdd gwyn y dosbarth.

5. Cyflwyno'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan [10 munud]
Treuliwch ychydig o funudau'n cyflwyno'r Cod Teithio i'r dosbarth. Mae Sleidiau 9 i 14 yn cyflwyno'r Cod Teithio mewn adrannau. Mae'r Cod Teithio a chopïau ohono ar gael o **www.codteithio.org**

Gofynnwch i'r dosbarth gymharu eu cod â'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan.

Tynnwch sylw at y ffaith fod tair prif adran (hawliau, cyfrifoldebau, diogelwch).

Tynnwch sylw at brif nodweddion pob adran.

Tynnwch sylw at ganlyniadau peidio â dilyn y Cod Teithio.

- Beth sydd yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan nad yw yn eich cod teithio chi?
- Beth sydd yn eich cod ymddygiad chi nad yw yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan ?
- Pam ydych chi'n meddwl?

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 4

Tynnwch sylw at y ffaith fod Cod Teithio manylach ar gyfer ymddygiad ar fysiau ysgol. Gadewch y sleid hon yn y golwg. Gofynnwch i'r dosbarth ddarllen drwy'r sleid yn dawel eu hunain a dewis un eitem o'r rhestr y maen nhw'n feddwl sy'n bwysig/yn aml yn cael ei hanwybyddu/sy'n eu synnu. Trafodwch yr ymatebion yn y fath fodd nes bod negeseuon allweddol y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fws Ysgol wedi eu harchwilio.

6. Ail grynhoi [5 munud]
Gofynnwch i ddysgwyr weithio mewn parau.

> **Munud yn unig:** Mae Dysgwr A yn egluro i Ddysgwr B beth yw'r Cod Teithio.
> **Munud yn unig:** Mae Dysgwr B yn egluro i Ddysgwr A pam fod angen y Cod Teithio

Pwysleisiwch fod ganddynt hawliau a chyfrifoldebau ond nad ydynt ar eu pennau eu hunain. Tynnwch sylw'r dysgwyr at y ffaith y gallan nhw gael cymorth a gair â rhywun yn yr ysgol neu'r coleg os byddan nhw'n dioddef neu'n dyst i unrhyw un o'r sefyllfaoedd a archwiliwyd heddiw.

Yn olaf, rhannwch gopïau o'r Cod Teithio, gan dynnu sylw at y wefan URL, **www.codteithio.org**